O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 338 (Cy. 55)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys, Caerdydd, Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *9 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyfnewidfa Croes Cwrlwys, Caerdydd, Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith a arweiniodd at y Gorchymyn hwn, a chan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd y gefnffordd yng Nghyfnewidfa Croes Cwrlwys yn Ninas a Sir Caerdydd.